



# Bwrdd Gwasasnaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Lles Lleol

Drafft - Tachwedd 2017

## **Cynnwys**

1. Rhagair - Cadeirydd (tudalen 3)
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (tudalen 4)
3. Sut datblygwyd y cynllun hwn (tudalen 9)
4. Strwythur y Bartneriaeth (tudalen 12)
5. Blaenoriaethau Trawsbynciol drafft (tudalen 13)
6. Blaenoriaethau lleol drafft (tudalen 21)
7. Cyflwyno a monitro cynnydd (tudalen 35)

## **1. Gweledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot**

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog ac iach lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ddatblygu yn eu bywydau - rhywle y mae pobl am fyw, dysgu a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, sy'n cynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol ac yn werth da am arian, yn hawdd i bobl eu defnyddio a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud. Gyda dinasyddion, byddwn yn adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynol lle caiff hawliau pawb eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau llyfn, wedi'u personoli ac o safon. Bydd cyflwyno gwasanaethu cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi a fydd yn galluogi i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda trwy isadeiledd digidol a chludiant o'r radd flaenaf a chaiff ein hamgylchedd naturiol ei warchod a hefyd ei ddatblygu i gefnogi byw iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni ein gweledigaeth os bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; os bydd gan yr holl bobl ifanc ac oedolion y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach ac yn ffyniannus; os bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; os bydd ein holl gymunedau'n ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt ac yn fannau lle gall pobl dderbyn cymorth gan gymdogion neu rwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu'n dda.

## 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Datblygwyd y Cynllun Lles lleol hwn i fodloni'r gofynion statudol a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub, Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [animeiddiad byr](#) sy'n gyflwyniad defnyddiol iawn i ystyr a bwriad y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n golygu bod yn rhaid i bob un o'r 44 corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae 5 peth y mae'n rhaid i'r gyrff cyhoeddus hynny feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.



### **Integreiddio**

Ystyried sut gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion gyrff cyhoeddus eraill.



### **Cydweithio**

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.



### **Cyfranogaeth**

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.



### **Atal**


Sut gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



### **Tymor Hir**

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant sydd, gyda'i gilydd, yn darparu gweledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag atynt. Datblygwyd y saith nod hyn yn dilyn sgwrs genedlaethol helaeth a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd llawer o bobl eu bod am eu cyflawni i'w plant a'u hwyrion.



**Cymru lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a grëir drwy sicrhau swyddi da.

**Cymru gydnerth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu mwyafu a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang) a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn sefydlu bwrdd statudol, a elwir yn fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r byrddau'n cynnwys aelodau statudol a chyfranogwyr gwadd, ac mae gan bob bwrdd bedwar aelod statudol. (Mae'r byrddau gwasanaeth cyhoeddus yn cymryd lle'r byrddau gwasanaethau lleol blaenorol).

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2016. Dyma aelodau statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyma gyfranogwyr gwadd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot:

- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT
- Heddlu De Cymru
- Tai Tarian
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru
- Canolfan Byd Gwaith
- Grŵp Colegau CNPT
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Llywodraeth Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngorau Tref a Chymuned



### 3. Sut datblygwyd y cynllun hwn

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y darn cyntaf o waith ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot oedd paratoi a chyhoeddi Aseiad o Les Lleol. Mae'r aseiad hwn yn aseiad o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot, ac fe'i cyhoeddwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 2 Mai 2016 (ar gael [yma](#)).

Cyfeiriwyd yr aseiad gan arolygon a gwaith ymgynghori helaeth â phreswylwyr a rhanddeiliaid, a thrwy ystyried gwybodaeth berthnasol megis data, tystiolaeth ac ymchwil bresennol.

Mae'r aseiad cyhoeddedig yn nodi cryfderau ac asedau pobl a chymunedau Castell-nedd Port Talbot, ac yn disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd y mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu yn awr ac yn y dyfodol.

Yr ail ddarn o waith sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yw llunio a chyhoeddi cynllun lles lleol sy'n nodi sut mae pob bwrdd yn bwriadu gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy bennu amcanion lles a fydd yn mwyafu cyfraniad pob bwrdd unigol at gyflawni'r 7 nod llesiant a amlinellwyd yn gynharach.

I gyfeirio'r Cynllun Lles Lleol drafft hwn ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, archwiliwyd yr heriau a'r cyfleoedd a nodwyd yn yr Aseiad o Les Lleol ymhellach gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn gweithdy (Mehffin 2016) a gyfeiriodd y gwaith o bennu'r blaenoriaethau drafft canlynol. Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai'r blaenoriaethau drafft hyn yn elwa o weithredu ar y cyd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwr lles yn yr ardal:

- i. Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod
- ii. Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn
- iii. Annog heneiddio'n dda
- iv. Hyrwyddo lles drwy'r gweithle

Arweiniodd y trafodaethau grŵp yn y gweithdy at nodi a datblygu nifer o themâu trawsbynciol:

- i. Cydnabod a hyrwyddo isadeiledd gwyrdd, sut gall yr isadeiledd gwyrdd hybu lles, yn enwedig i'r grwpiau hynny o bobl a nodwyd yn y themâu blaenoriaeth uchod.

Gwirfoddolodd aelodau unigol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arwain y gwaith ar flaenoriaethau a themâu. Er mwyn gwneud hyn bu'n rhaid sefydlu gweithgorau amlasiantaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau a gynrychiolwyd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler y diagram trosodd). Mae'r gwaith a wnaed gan y grwpiau'n cynnwys:

- cydlynu'r gwaith i fapio problemau ac asedau;
- mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau er mwyn nodi asedau ac adnoddau lleol a phersonol, adeiladu arnynt a'u defnyddio.
- sicrhau bod protocolau rhannu data digonol ar waith i hwyluso rhannu data perthnasol rhwng asiantaethau mewn modd amserol a diogel;
- nodi gwybodaeth a phrofiad lleol i greu grwpiau a rhwydweithiau cefnogol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y gymuned mewn modd ystyrlon

## Ymgynghori

Yn ei gyfarfod ar 21 Medi, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fabwysiadu ymagwedd ddwy haen at yr ymgynghoriad:


**Haen 1:** drwy ddefnyddio'r Cynllun Cynnwys Dinasyddion, byddwn yn dylunio ymgynghoriad cyhoeddus cyffredinol i roi cyfle i amrywiaeth eang o'r cyhoedd a chyrff â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth ddrafft a'r blaenoriaethau drafft a nodwyd gan y BGC. Datblygwyd a lledaenwyd prif negeseuon yr ymgynghoriad hwn drwy rwydweithiau presennol partneriaid gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau (e.e. holiadur ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, holiaduron papur a digwyddiadau cynnwys y gymuned).

**Haen 2:** eto, gan gyfeirio at y Cynllun Cynnwys Dinasyddion, bydd swyddogion arweiniol yn cynnal ymgynghoriad/gweithgarwch cynnwys penodol ar eu ffrydiau gwaith arbennig. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i nodi'r bobl a allai fod yn rhan o ddatblygu a chyflwyno'r prosiect yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad amlasiantaeth i randdeiliaid ym mis Rhagfyr 2017. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar a yw cymryd ymagwedd gul a dwfn at y cynllun lles hwn yn gadael bwch yn nhrefniadau cynllunio'r bartneriaeth. Bydd allbwn y gweithdy hwn wedyn yn cyfeirio fersiwn derfynol y cynllun lles.

DRAFT

#### 4. Strwythur y Bartneriaeth



**5. Blaenoriaethau Trawsbynciol drafft: Cydnabod a hyrwyddo isadeiledd gwyrdd, sut gall isadeiledd gwyrdd gefnogi lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot**

**Pam mae hyn yn bwysig?**

**Dyma ddiffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o isadeiledd gwyrdd:**

***"... defnyddio ecosystemau, mannau gwyrdd a dŵr wrth gynllunio defnydd tir yn strategol i gyflwyno buddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd."***

Mae isadeiledd gwyrdd (IG) yn cyfeirio at strwythur, lleoliad, cysylltedd a mathau o fannau gwyrdd (a glas) ar y cyd, gan gynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd, ymylon ffyrdd, rhandai a gerddi preifat.

Dengys adborth o'r gwaith i ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer Asesiad Lles CNPT fod y mannau gwyrdd a glas hyn yn werthfawr iawn i unigolion a chymunedau. Maent yn darparu buddion uniongyrchol i ni drwy gynnig lle i ymlacio, chwarae, gwneud gweithgareddau corfforol, dysgu a chysylltu â natur. Yn fwy na hyn, maent yn darparu toreh o fuddion eraill y mae ein bodolaeth a'n hansawdd bywyd yn dibynnu arnynt - o reoli'r hinsawdd i gynhyrchu bwyd, darpariaeth ynni, llai o berygl llifogydd a gwell ansawdd aer.

Mae rhwydwaith o fannau gwyrdd iach a chysylltiedig yn hanfodol ar gyfer lles, ac eto, mae darparu a chynnal mannau gwyrdd o safon yn cael ei herio gan faterion gwrthdrawiadol - o amaethyddiaeth, diwydiant, datblygiad, cynhyrchu ynni, newid yn yr hinsawdd a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol megis baw cŵn, sbwriel, beicio/gyrru cerbydau oddi ar y ffordd a thipio anghyfreithiol. Nid oes ymagwedd drosgynnol strategol at ddarparu mannau gwyrdd yn y fwrdeistref sirol, a cheir diffyg cydnabyddiaeth o'r lluo o fuddion lles uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall rhwydwaith o fannau gwyrdd wedi'u cynnal yn dda eu darparu - na'r potensial ar gyfer yr adnodd mannau gwyrdd i alluogi a chyflwyno mwy o fuddion yn y dyfodol.

Mae corff sylweddol o dystiolaeth i awgrymu y gall buddsoddi mewn mannau gwyrdd gyflwyno amryfal fuddion i les amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r buddion hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â meysydd pwnc blaenoriaeth eraill a nodwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT. Er enghraifft:

**Gweithgarwch corfforol:** Mae'r rhai sy'n byw agosaf at fan gwyrdd yn fwy tebygol o'i ddefnyddio a'i ddefnyddio'n amlach. (FFYNHONNELL ARALL) Ar lefel y boblogaeth, mae dod i gysylltiad yn amlach ag amgylchoedd naturiol yn gysylltiedig â chyfraddau llai o farwolaethau, diabetes math 2, clefydau cardiofasgwlaidd a resbiradol, a chanlyniadau mwy cadarnhaol mewn perthynas â mamau a beichiogrwydd (EIN020).

**Iechyd meddwl:** Mae pobl sy'n mynd allan i'r awyr agored yn dweud bod ganddynt well teimladau lles a theimladau straen a phryder is na'r rhai sy'n gwneud yr un ymarfer corff dan do (FFYNHONNELL ARALL). Mae lefelau hunanbarch yn llawer gwell ac mae teimladau o ddieter, dryswch, iselder a thyndra'n gwella'n sylweddol ar ôl gweithgarwch awyr agored (NEF -Sefydliad Economeg Newydd)

**Anghydraddoldeb:** Dengys tystiolaeth y gall fod llai o anghydraddoldeb cymdeithasol economaidd ym maes iechyd mewn lleoedd â gwell mynediad i fannau gwyrdd o'i gymharu â'r lleoedd hynny lle ceir gwaeth mynediad i fannau gwyrdd (cyfarfod briffio CNC ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)

**Blynyddoedd Cynnar:** Mae treulio amser mewn mannau gwyrdd yn ystod beichiogrwydd yn gysylltiedig â gwell iechyd i famau a chanlyniadau beichiogrwydd, megis pwysau geni iach (EIN020). Yn y blynyddoedd cynnar, mae mannau gwyrdd yn caniatáu ar gyfer chwarae naturiol a chreadigol, ac yn galluogi plant i ddysgu cymryd risgiau a mabwysiadu ffyrdd iach/actif o fyw.

**Diogelwch cymunedol:** Mae tystiolaeth yn dangos lefelau is o droseddau mewn ardaloedd preswyl lle ceir mwy o fannau gwyrdd (yr awyr iach). Fodd bynnag, mae mannau gwyrdd na chant eu cynnal yn dda yn cyfrannu at deimlad o fod yn agored i niwed ac ofn troseddau.

**Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod:** Mae mannau gwyrdd yn cyfrannu mewn ffordd bwysig at wella lles corfforol a meddyliol unigolion, gan gefnogi gwydnwch personol ac emosiynol.

**Sgiliau, swyddi a'r economi:** Mae busnesau a datblygwyr eiddo lleol yn elwa o fannau gwyrdd ychwanegol drwy swyddi a gaiff eu creu, gwariant gan ymwelwyr a phrisiau tai (FFYNHONNELL ARALL). Mae rheoli a gwella mannau gwyrdd yn darparu amryfal gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.

**Newid yn yr hinsawdd:** Gall isadeiledd gwyrdd leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig a straen gwres. Gall gwella isadeiledd gwyrdd arwain at well cysylltedd a chyflwr ecosystemau a'r gallu i addasu'n well i amodau sy'n newid.

**Dod i gysylltiad â llygryddion:** Mae isadeiledd gwyrdd (fel coed trefol) yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau'r swm o lygredd aer y daw pobl i gysylltiad ag ef.

**Cartrefi a lleoedd o safon:** Mae isadeiledd gwyrdd yn elfen hanfodol o ddylunio lleoedd yn dda. Mae'n galluogi teithio llesol, mwy o gydlyniant cymunedol, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a buddion ar gyfer iechyd corfforol a meddwl. Gall coed a mannau gwyrdd leihau llygredd sŵn niweidiol hefyd a chyfrannu at lonyddwch trefol sy'n bwysig wrth greu ardaloedd tawel mewn trefi dan y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol, megis Castell-nedd a Phort Talbot.

**Mae mannau gwyrdd yn cyfrannu at y 7 nod llesiant:**

Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol	Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod
<b>Cymru lewyrchus</b>	Mae mannau gwyrdd yn elfen hanfodol o gymdeithas carbon isel, gan ddarparu'r adnoddau naturiol rydym oll yn dibynnu arnynt am ein hansawdd bywyd. Gall mannau gwyrdd a glas ddenu twristiaeth a buddsoddiad i'r ardal.
<b>Cymru gydnerth</b>	Mae isadeiledd gwyrdd (IG) yn hanfodol i'n helpu ni a'n hamgylchoedd i addasu ac ymateb i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol drwy gynyddu gwydnwch ein hecosystemau. Mae IG yn ein helpu i deimlo mwy o gysylltiad â'r byd naturiol a gall ein hannog i fyw bywydau mwy cynaliadwy.
<b>Cymru iachach</b>	Mae ardaloedd â mannau gwyrdd mwy hygyrch yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl a chorfforol.

<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	Dengys tystiolaeth y gall fod llai o anghydraddoldeb cymdeithasol economaidd ym maes iechyd mewn lleoedd â gwell mynediad i fannau gwyrdd o'i gymharu â'r lleoedd hynny lle ceir gwaeth mynediad i fannau gwyrdd.
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Mae mannau gwyrdd ar gyfer cymdeithasu, rhyngweithio a digwyddiadau yn gwella cydlyniant cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	Mae mannau gwyrdd yn elfen bwysig o gysylltiad â lle a hunaniaeth bersonol.
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b>	Drwy ofalu am ein hamgylchedd a'r amrywiaeth o adnoddau naturiol, rydym hefyd yn parchu'r amgylchedd byd-eang

Mae rhai mannau gwyrdd o safon yn CNPT sy'n ased enfawr i'r sir - ond yn aml nid yw eu cyfraniad presennol at les, ynghyd â'u potensial i gyflwyno mwy o fuddion yn y dyfodol, yn cael ei gydnabod. Mae cyfle hefyd i greu mannau gwyrdd newydd wrth wella dulliau rheoli ac iechyd rhai eraill. Mae'r adnoddau naturiol hyn yn sail i'n bodolaeth a'n hansawdd bywyd - o weithgarwch corfforol, lles meddwl a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, i reoli'r hinsawdd, cynhyrchu bwyd a buddsoddiad economaidd. Caiff darparu, cynnal a defnyddio'r asedau naturiol hyn eu herio gan faterion sy'n gwrthdaro - o amaethyddiaeth, diwydiant, datblygiad a newid yn yr hinsawdd i broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol megis baw cŵn, beicio/gyrru cerbydau oddi ar y ffordd a thipio anghyfreithiol.

Er bod gwasanaethau mannau gwyrdd dan bwysau'n ariannol ac er bod staff dan bwysau hefyd, mae adnodd o safon o fewn ffiniau'r sir o hyd y gallwn adeiladu arno i gyflwyno yn erbyn yr holl nodau llesiant.

Mae enghreifftiau niferus o brosiectau/fentrau presennol a rhai'r gorffennol yn gweithio gyda mannau gwyrdd CNPT i gyflwyno lles. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi tueddu i fod yn brosiectau/fentrau peilot neu'n rhai a ariennir am dymor byr.



Mae prif ffrydio wedi bod yn heriol, ac mae tuedd i gynnal prosiectau ar wahân, gan olygu bod yr effaith gyffredinol yn dameidiog. Cafwyd cryn dipyn o arfer da yn y gorffennol a cheir arfer da presennol hefyd o ran pobl a chymunedau yn eu mannau gwyrdd, a gallai gwneud mwy o ymdrech i weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag amcanion cyffredin, cynnwys pobl yn fwy ac ymyriadau tymor hwy sy'n canolbwyntio ar atal fod o fudd enfawr.

Mae angen i ni fabwysiadu ymagwedd wahanol at yr adnodd hwn, un sy'n ystyried y darlun cyfan ac yn deall sut mae amgylchedd iach a chadarn yn cefnogi ffyniant economaidd a chymdeithasol. Mae rhai o fentrau'r gorffennol wedi gwneud cryn dipyn i gefnogi hyn, ond gellid gwneud mwy gydag adnoddau priodol. Bydd yn rhaid i'r broses ymwneud â gweithio gyda mwy o bobl er mwyn uno pethau a datblygu atebion ar y cyd a chanolbwyntio ar ymagweddau newid ymddygiad at annog cymunedau i ddefnyddio mannau gwyrdd. Mae'r fath ymagweddau wedi gweithio mewn mannau eraill o gwmpas y byd ac yn y DU.

Mae cynnwys y cyhoedd yn CNPT yn dangos bod mannau gwyrdd yn wirioneddol bwysig i bobl:

- Maent yn darparu buddion trawsbynciol ar draws holl feysydd pwnc dadansoddi ymatebion a'r holl nodau llesiant.
- Mae mannau gwyrdd CNPT yn ased enfawr - prin yw'r lleoedd sydd ag asedau o'r fath - ac mae llawer o'r tir dan berchnogaeth gyhoeddus. Mae'r potensial i wella lles yn sylweddol.
- Mae mannau gwyrdd yn darparu ffordd gost-efeithiol o wella iechyd meddwl a chorfforol pawb yn CNPT.
- Mae rhwydwaith o fannau gwyrdd yn hanfodol i'n helpu i addasu ac ymateb i'r heriau a wynebwn yn y dyfodol, gan ein helpu i fod yn wydnach.
- Mae mannau gwyrdd yn elfen hanfodol o ddylunio lleoedd yn dda. Mae'n galluogi teithio llesol a mwy o gydlyniant cymunedol ac yn annog mewnfuddsoddi.
- Os bydd mesurau cyni'n parhau, yna mae mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd dan fygythiad heb ffynonellau ariannu amgen.

## Pa gamau y byddwn yn eu cymryd?

Er bod yr holl wasanaethau dan bwysau ariannol ac er bod staff dan bwysau hefyd, mae adnodd man gwyrdd o safon o fewn ffiniau'r sir o hyd y gallwn adeiladu arno i gyflwyno yn erbyn yr holl nodau llesiant.

Mae angen ymagwedd wahanol arnom, un sy'n ystyried y darlun cyfan ac yn deall sut mae amgylchedd iach a chadarn yn cefnogi ffyniant economaidd a chymdeithasol. Bydd angen i'r fath ymagwedd fod yn ymwneud â gweithio gyda mwy o bobl er mwyn uno pethau a datblygu atebion ar y cyd. Bydd angen canolbwyntio ar ymagwedd newid ymddygiad ar raddfa fawr at annog cymunedau i ddefnyddio mannau gwyrdd.

### Cyfleoedd allweddol:

**Cadernid amgylcheddol a chymunedol:** Mae cyfle i ailgysylltu cynefinoedd a gwella cysylltedd ar gyfer gwydnwch pobl a byd natur. Mae cynnwys pobl a chymunedau yn eu mannau gwyrdd lleol yn allweddol - er enghraifft, mae prosiect Gweithio gyda Natur CNPT yn darparu buddion iechyd a lles i'w gyfranogwyr, wrth wella ansawdd mannau gwyrdd lleol. Bydd gwella'r ddarpariaeth mannau gwyrdd a chysylltedd hefyd yn ein galluogi i addasu a gwella'n gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (e.e. perygl llifogydd, coed yn darparu cysgod/oeri'r aer mewn ardaloedd trefol), e.e. Dyluniad Trefol sy'n Ystyriol o Anghenion Dŵr yn Llanelli.

**Adfywio gyda ffocws ar yr amgylchedd:** Mae CNPT wedi elwa o waith adfywio diweddar helaeth (e.e. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) ac mae mwy ar y gweill. Mae angen cynnwys IG ac ystyriaethau cynaladwyedd yn y fath brosiectau i wneud yr ardal yn lle deniadol i fyw a gweithio yn ogystal â gwneud y gorau o'r buddion i bobl a bywyd gwyllt.

Ffurfiwyd Partneriaeth Parc Coedwig Afan - grŵp CBSCNPT a CNC - i adolygu'r cyfleoedd ym Mharc Coedwig Afan fel cyrchfan i ymwelwyr.

**Defnyddio'r amgylchedd ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol:** Mae pobl yn iachach ac yn hapusach os oes ganddynt gysylltiad â natur. Mae potensial na fanteisiwyd arno i gysylltu'r adnodd mannau gwyrdd â gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a datblygiad cymunedol - gan greu cysylltiadau a dolenni systemig rhwng y rhai sy'n rheoli

mannau gwyrdd a/neu ddarparwyr gweithgareddau awyr agored, a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl a fyddai'n elwa fwyaf o dreulio amser yn yr awyr agored. Mae defnyddio manau gwyrdd yn elfen bwysig o ragnodi cymdeithasol, fel sy'n digwydd mewn manau eraill yng Nghymru a'r DU (er enghraifft, y Prosiect Coed Actif a gynhelir gan Coed Lleol). Mae tystiolaeth bod y manteision a geir o wario ar "wasanaethau parciau" yn sylweddol (yn bennaf o ran buddion iechyd ac arbedion cyfatebol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd) ac felly mae cyfleoedd ar gael ar gyfer gwaith partneriaeth er mwyn cyfeirio strategaethau rheoli parciau i dargedu buddiolwyr yn well.

Er mwyn gwireddu'r cyfleoedd hyn, bydd rhaid i ni gyflawni nifer o gamau ymchwiliol yn gyntaf:

Sefydlu Gweithgor Isadeiledd Gwyrdd i gynnwys partïon perthnasol y mae ganddynt rôl wrth ddarparu a rheoli manau gwyrdd (e.e. Tîm Cefn Gwlad CNPT, y Tîm Datblygu Economaidd/Adfywio, y Tîm Datblygu Cynllunio, Ystadau) yn ogystal â chynrychiolwyr yr asedau hynny, e.e. y Bwrdd Iechyd Lleol, rhagnodwyr lleol, buddiannau hamdden). Dyma fydd y camau gweithredu allweddol ar gyfer y grŵp:

<b>Camau</b>	
1	Deall faint o asedau a geir ar hyn o bryd a'u cyflwr, gan gynnwys, er enghraifft: <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Mapio'r asedau a geir ar hyn o bryd - adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau'n barod ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).</li> <li>b. Adolygu'r rhain yn erbyn ffactorau cymdeithasol economaidd (e.e. defnyddio'r pecyn cymorth yn dda ar gyfer pobl) i nodi meysydd posib ar gyfer sylw a buddsoddiad yn y dyfodol.</li> </ol>
2	Adolygu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sylfaen asedau: <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Deall datblygiad yn y dyfodol a gynigir gan y sector cyhoeddus a phreifat yn y sir.</li> <li>b. Arferion rheoli gwell ar yr ystâd gyhoeddus.</li> <li>c. Ôl-osod Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS), coridorau gwyrdd, llwybrau teithio llesol, gerddi cymunedol, plannu coed i fynd i'r afael ag ansawdd aer etc.</li> </ol>
3	Hyrwyddo'r amryfal fuddion o ddefnyddio'n hasedau i gyflawni amcanion lles y BGC, gan gynnwys, er enghraifft: <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Gwerthuso gwaith y presennol a'r gorffennol o ran defnyddio manau gwyrdd i ddeall yr hyn sy'n</li> </ol>

	<b>Camau</b>
	digwydd eisoes/wedi gweithio'n dda etc. b. Datblygu pecyn cymorth er mwyn cynnwys y gymuned (adeiladu ar gam gweithredu 3) c. Nodi rhwystrau i ddefnyddio manau gwyrdd.

DRAFT



## 6. Blaenoriaethau drafft lleol

Mae'r bennod hon yn darparu mwy o fanylion am bob un o'r blaenoriaethau drafft a nodwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a fydd yn gwella lles yr ardal.

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau drafft, rydym wedi nodi:

- pam rydym yn credu bod pob blaenoriaeth ddrafft yn bwysig gan ystyried y dadansoddiad o les yn Asesiad Lles Castell-nedd Port Talbot, a'r trafodaethau a'r gwaith a wnaed yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gweithgorau amlasiantaeth.
- y camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau drafft sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r camau hynny, a'r cyfnodau amser disgwylidig ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau drafft.
- sut mae'r camau uchod wedi'u datblygu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth ddrafftio'r cynllun hwn, ceisiwyd cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut mae'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- sut bydd y blaenoriaethau drafft yn cyfrannu at gyflawni 7 nod llesiant Llywodraeth Cymru

**Blaenoriaeth Ddrafft: Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau plentyndod niweidiol.**

**Cyfraniad at nodau lles:** Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

### **Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae'n amlwg nad yw pob plentyn yn cael dechrau cyfartal mewn bywyd ac mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (PNP) yn effeithio'n andwyol ar nifer ohonynt. Daw'r plant i gysylltiad â'r Gwasanaeth Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Gwirfoddol yn ystod eu plentyndod, wrth i wendidau mwy ymddangos yn eu lles meddwl a chorfforol, sy'n dod i'r amlwg yn aml mewn ymddygiad cynyddol heriol a pheryglus. O ganlyniad, mae gwasanaethau'n dechrau cael anhawster ateb y galwadau cynyddol gymhleth a achosir gan y plant diamddiffyn hyn.

Mae darparwyr gwasanaethau wedi dyheu am allu ymyrryd yn gynharach ym mywydau'r plant hyn; mae ymyrryd yn gynnar yn rheidrwydd moesol ond mae hefyd yn rheidrwydd busnes. Mae'r Gwasanaethau Addysg ac Iechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu'n cael anhawster rheoli swm a chymhlethdod y galw sy'n codi o ddulliau magu plant annigonol, cam-driniaeth mewn teuluoedd, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Mae [Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod \(ACE\) Cymru](#) wedi dangos bod dioddef **pedwar** neu fwy o brofiadau mwy niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu'r cyfleoedd o risg uchel mewn sawl maes o'u bywyd. Datgelodd data fod 14% o oedolion yng Nghymru wedi profi **pedwar** neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod eu Plentyndod, gan beri iddynt fod **bedair** gwaith yn fwy tebygol o gael problemau alcohol, **chwe** gwaith yn fwy tebygol o smygu ac **14** gwaith yn fwy tebygol o ymwneud â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf. Amlygodd yr adroddiad fuddion tymor byr a hir ymyrryd yn gynnar i gefnogi plant a'u teuluoedd ar yr adeg gynharaf, gan ddangos bod y fethodoleg hon hefyd yn fwy cost effeithiol wrth i lai o achosion ddatblygu i gyflyrau dwys a chronig.

Drwy gamau gweithredu integredig mwy effeithiol gan asiantaethau, gallwn atal camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill y mae plant yn eu hwynebu, a thorri'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl a chorfforol gwael, clefydau cronig, cyflawniad addysgol is a llai o lwyddiant economaidd mewn oedolaeth.

Mae adroddiad [Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod \(ACE\) Cymru](#) yn cyfeirio at arolygon a data ymchwil yng Nghymru sy'n cysylltu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ag iechyd gwael, cyflawniad addysgol isel ac ymddygiad troseddol.

Bydd gan yr holl wasanaethau wybodaeth am deuluoedd a phobl sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd. Bydd ganddynt hefyd lawer o ddata am gyfradd y defnydd o wasanaethau mewn amryw feysydd. Y perygl yma yw os caiff gwasanaethau eu hatal yn sgîl gormod o alw, mae'r unigolion a chanddynt anghenion gwirioneddol yn syrthio rhwng "trothwyau" ac asiantaethau.

Mae llawer o'n gwasanaethau a'n hadnoddau presennol yn canolbwyntio ar anghenion cronig tymor hir. Mae'r model hwn sy'n seiliedig ar ddim risg yn methu elwa ar fuddion ymyriadau isel, rhatach, helaeth o ran achosion sylfaenol yr anghenion cronig. Mae sawl ardal ledled Cymru wedi dechrau strwythuro timau integredig amlasiantaeth cymunedol i flaenoriaethu ymyriadau lefel isel o'r fath a gwreiddio'r athroniaeth hon ar gam cynnar wrth gyflwyno gwasanaethau. Cydnabyddir y dylai'r holl sefydliadau, asiantaethau, y trydydd sector a'r sector preifat fod yn rhan o hyn er mwyn darparu ateb integredig cwbl gynaliadwy.

Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau'n arfer model rheoli sy'n seiliedig ar risg, sy'n canolbwyntio ar roi triniaeth ddwys i unigolion mewn cymdeithas ar gyfer symptomau anghenion dwys a chronig megis iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, esgeuluso plant a phroblemau ymddygiad sy'n arwain at wahardd o'r ysgol. Mae'r modelau cyfredol hyn yn ffafrio mynd i'r afael â symptomau yn hytrach nag achosion, a cheir diffyg integreiddio'r holl asiantaethau'n ddwfn i ddarparu ymyriadau lefel isel ag adnoddau sy'n canolbwyntio ar atal.

Fodd bynnag, bydd yr ymyriad cynnar hwn drwy lens wedi'i gyfeirio gan "ACE" yn golygu y bydd angen atebion cynaliadwy, integredig, tymor hir sy'n canolbwyntio'n llawn ar ymyriad. Bydd hyn yn dod â gwasanaethau ynghyd i

nodi a chyflwyno ffactorau "amddiffynnol" sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y gall teuluoedd ac unigolion gyfrannu at ffyniant a lles Castell-nedd Port Talbot yn hytrach na bod yn dreth gyson ar adnoddau o genhedlaeth i genhedlaeth.

### **Pa gamau rydym yn mynd i'w cymryd?**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn y broses o ddatblygu parthau plant sy'n fodolau ymyriad sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth. Cafwyd trafodaethau eisoes rhwng yr heddlu a'r Adran Addysg a chytunwyd y gallai datblygu'r gwaith hwn drwy lens a gyfeirir gan "ACE" ychwanegu gwerth gwirioneddol.

Bydd datblygu a threialu Cymunedau i Blant yng ngorllewin Sandfields yn caniatáu i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid sicrhau ffyrdd mwy cydlynol o gyflwyno strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar mewn ardal benodol drwy ddod â ffrydiau ariannu ynghyd, lleihau dyblygu adnoddau a sicrhau ffocws di-baid ar dorri cylch amddifadedd.

Mae angen i ni allu rhoi'r un cyfleoedd i blant gorllewin Sandfields â'r rhai a geir mewn ardaloedd mwy breintiedig.

Bydd y cynllun peilot yn ein galluogi i:

- dreialu buddion teilwra gwasanaethau i gefnogi anghenion y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un broblem sy'n dod i'r amlwg ar adeg benodol yn ystod plentyndod;
- symud o'r ymagweddau digyswllt a arweinir gan sefydliadau unigol i strategaeth sy'n uno partneriaid er budd plant y gymuned; a
- gwerthuso effaith y gwaith hwn.

Seilir y cynllun peilot hwn ar gysylltu plant a'u rhieni â'r rhwydwaith presennol o wasanaethau sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â dod â gwasanaethau'n agosach i'r gymuned lle bo hynny'n briodol, ac archwilio lle gellir gwneud gwelliannau.

Drwy fabwysiadu ymagwedd teulu cyfan, caiff gwasanaethau eu rheoli gan gydlynwyr prosiect a fydd yn golygu na fydd lluo o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r teulu a phob un ohonynt â'u hasesiadau, eu trothwyau gwasanaeth a'u hapwyntiadau eu hunain. I wneud hyn yn llwyddiannus, byddwn yn:



- datblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd mwy dwys â'r nod o gynyddu dyhead a chyfranogiad addysgol;
- sicrhau y nodir salwch meddwl yn gynnar ac y rhoddir cefnogaeth gynnar iddo;
- adeiladu ar ddulliau cefnogi presennol sy'n ymwneud â thrais domestig; a
- sefydlu ymyriadau clir a rhagweithiol i ymdrin â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Caiff Cynllun Peilot y Gymuned Plant ei lunio o gwmpas tri phwynt pendant lle bydd ymyriadau'n fwyaf effeithiol:

1. Y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd
2. Ysgol uwchradd a throsglwyddo i oedolaeth
3. Cefnogaeth i rieni/ofalwyr

Bydd tri phrif gam i'r gwaith er y disgwylir iddynt orgyffwrdd.

- Cam 1 - mapio a llunio;
- Cam 2 - dechrau gweithio gyda'i gilydd;
- Cam 3 - gweithio'n well gyda'i gilydd.

Amlinellir y camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â phob ffrwd waith isod. Er mwyn cychwyn a chydlynu'r camau gweithredu hyn, i sicrhau cyfathrebu clir ac amserol a momentwm o weithgarwch, cynigir secondio cydlynedd o'r Tîm Partneriaeth Teulu'n Flaenaf i gyflawni'r rôl hon a gefnogir gan yr adnodd weinyddol gyfredol.

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant y model yw'r angen i sicrhau arweinyddiaeth o safon y mae angen sgiliau gwahanol ac uwch arni, dylanwadu a chyd-drafod yn anad dim, a fydd yn ystyried ffiniau proffesiynol a sefydliadol, i hwyluso gweithio traws-ddiwylliannol. Cydlynwyr prosiect fydd yn gyfrifol am yr arweinyddiaeth hon. Byddant yn cyflawni amryfal dasgau gweithredol a strategol megis cynllunio prosiectau, llywodraethu a rheoli adnoddau i'w helpu i dyfu i rolau arweinyddiaeth.

Bydd hyfforddi staff mewn partneriaeth a gweithio fel tîm yn gwella cydweithio ac yn lleihau effaith ffiniau proffesiynol. Mae cynnwys y gymuned hefyd yn hanfodol bwysig wrth sicrhau llwyddiant. Bydd cynnwys a hyfforddi unigolion o grwpiau cymunedol hefyd yn cryfhau perthnasoedd, yn gwreiddio newidiadau ac yn annog cynaladwyedd y newidiadau hyn.

Wrth adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad o Les Lleol, mae angen i ni barhau i wneud defnydd da o'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael i gyfeirio gwneud penderfyniadau a monitro a gwerthuso cynnydd. Bydd grwpiau cymunedol a phroffesiynol yn ennill sgiliau a mewnwleidiadau o rannu'r data a gesglir, y dadansoddiadau a'r dehongliadau.

	<b>Camau gweithredu</b>
1	Mapio'r holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac ysgol gynradd yng ngorllewin Sandfields
2	Mapio'r holl ddarpariaeth ysgol uwchradd a throsglwyddo i oedolaeth yn yr ardal
3	Mapio'r holl gefnogaeth i rieni yn yr ardal
4	Nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth
5	Mapio'r holl asedau cymunedol
6	Cytuno ar brotocolau cydlynu a chyfathrebu (gan gynnwys rhannu data)
7	Cytuno ar feini prawf i nodi teuluoedd 'diamddiffyn'
8	Cytuno ar fygythiadau allweddol a materion cyflwyno
9	Cydgysylltu ag arweinwyr cymunedol/rhanddeiliaid allweddol i drafod a datblygu cynllun peilot
10	Nodi teuluoedd diamddiffyn a chytuno ar y rhai i'w cefnogi
11	Cytuno ar egwyddorion allweddol y Gymuned Plant
12	Cytuno ar weledigaeth a rennir yn seiliedig ar ymyrryd ac atal yn gynnar
13	Datblygu strategaeth gydlynol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o rwystrau, asedau a chyfleoedd i wella cyfleoedd bywyd
14	Cytuno ar fodel llywodraethu a rheoli a'i sefydlu
15	Sefydlu grŵp cyfeirio lleol (gan gynnwys plant a phobl ifanc)
16	Profi'r dadansoddiad a'r strategaeth bresennol
17	Nodi amrywiaeth o ganlyniadau a gaiff eu gwella drwy gydweithio, a chytuno arnynt
18	Cytuno ar drefniadau monitro i asesu a gwerthuso cynnydd
19	Cytuno ar gamau gweithredu i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth ymhellach
20	Uwch-gynrychiolwyr o'r holl asiantaethau allweddol i ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd (pythefnosol) i drafod y prosiect a chytuno ar ymyriadau.

## **Blaenoriaeth ddrafft: Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, gan ganolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn**

**Cyfraniad at nodau lles:** Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus

### **Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae person yn ddiamddiffyn os, o ganlyniad i sefyllfa neu amgylchiadau, na all ofalu amdano ef ei hun neu amddiffyn ei hun rhag niwed neu ecsbloetiaeth.

Gall niwed gael ei achosi gan un digwyddiad trawmatig, fel ymosodiad treisgar, neu gymhlethdod o ddigwyddiadau arwyddocaol, sy'n tarfu ar newid neu'n niweidio lles corfforol a seicolegol person. Gall camdriniaeth achosi niwed hefyd. Ecsbloetiaeth yw cam-drin neu ddefnyddio person arall yn fwriadol neu gam-drin pŵer a rheolaeth drosto. Fel arfer, mae'n ymwneud â manteisio ar berson neu sefyllfa arall er budd personol, ond nid bob amser. Fodd bynnag, mae elfen derfynol hefyd i risg ac i rai pobl ddiamddiffyn, bydd hyn yn cynnwys y risg i unrhyw drydydd parti, naill ai drwy eu hymddygiad neu, ar adegau, droseddoldeb. Yn y diffiniad hwn, gall sefyllfa neu amgylchiadau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

<b>Amgylchiadau Personol</b>	<b>Nodweddion Personol</b>	<b>Iechyd ac Anabledd</b>	<b>Amgylchiadau Economaidd</b>
Unigedd cymdeithasol Sgiliau cymdeithasol/cyfathrebu gwael Profedigaeth Amodau Byw Hunan-esgeulustod Dioddefwr dro ar ôl tro Hanes o droseddu	Rhywedd/Trawsrywiol Tueddfryd rhywiol Cefndir Ethnig Oedran Anabledd Crefydd	Anableddau dysgu Anabledd corfforol neu salwch Anghenion iechyd meddwl Camddefnyddio cyffuriau/alcohol neu ddibyniaeth arnynt	Ariannol Diweithdra Tai

Mae angen ymateb gwell ar bobl ddiamddiffyn, drwy ddiffiniad, gan wasanaethau ac asiantaethau perthnasol i sicrhau y diwellir eu hanghenion. Mae'r anghenion hyn yn aml yn gymhleth, ac ar hyn o bryd, maent wedi'u harwain yn rhy aml gan alw. Mae'r galw hwn, ynghyd â chymhlethdod, yn rhoi pwysau ar wasanaethau gan arwain yn aml at wastraffu cyfleoedd. O ran yr unigolyn, ei deulu a'r gymuned lle mae'n byw, mae ei les yn dioddef wrth i gyfleoedd am ddiogelu gael eu blaenoriaeth, ond nid yw gwell gwydnwch drwy hunangymorth a chefnogaeth integredig gan asiantaethau bob amser yn cael eu nodi na'u rhoi ar waith.

Nododd yr Asesiad o Les Lleol nifer o feysydd diamddiffynedd yn yr ardal:

- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio;
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau ar y cyd â phroblemau iechyd meddwl;
- Natur ddiamddiffyn troseddwr; a,
- Natur ddiamddiffyn cymunedau a nodwyd o ganlyniad i faterion sy'n ymwneud â thlodi.

Yn ogystal, mae gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lu o ddata sy'n nodi tueddiadau'r presennol a'r dyfodol o ran diamddiffynedd sy'n darparu tystiolaeth o'r angen i roi ffyrdd newydd o weithio ar waith. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i fapio'n hasedau a'n prosesau a nodi ein cryfderau wrth nodi bylchau mewn gwasanaethau a meysydd lle mae angen mwy o waith. Gan ddefnyddio tystiolaeth i ganolbwyntio ar atal a rheoli achosion mewn modd integredig, gyda chyfranogaeth lawn partneriaid, byddwn yn rhoi atebion tymor hir ar waith i fynd i'r afael â materion diamddiffynedd yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn darparu cadernid a chydlyniant cymunedol wrth wella'r nod o greu Cymru fwy cyfartal a llewyrchus.

Er bod gwasanaethau presennol yn wynebu pwysau cynyddol i ddiwallu anghenion y bobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau, mae llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol o ran diamddiffynedd. Drwy'r gwaith yma, byddwn yn datblygu ac yn cydlynu'r defnydd o ddata a gwybodaeth bresennol am ddiamddiffynedd i sicrhau ei fod yn cael ei flaenoriaethu o ran y saith nod llesiant. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn lleihau seilos sefydliadol ar draws yr holl asiantaethau, yn fewnol ac yn allanol o ran diamddiffynedd, ac yn bwysicaf, yn gwella cyflwyno gwasanaethau sy'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu lles.

Drwy fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau i nodi'r cyfalaf dynol, cymdeithasol a ffisegol sy'n bodoli yng ngorllewin Sandfields ac adeiladu arno, byddwn yn gallu helpu: unigolion, teuluoedd a'r gymuned i gynnal a gwella eu lles hyd yn oed pan fyddant yn gorfod wynebu profiadau bywyd adfydus.

- Gwneud materion unigol yn faterion cymunedol, adeiladu ar anghenion a dyheadau a nodwyd, adeiladu grwpiau a rhwydweithiau cefnogol wrth ddatblygu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ystyrlon.
- Nodi asedau ac adnoddau personol a lleol, adeiladu arnynt a'u defnyddio - megis pobl, amser, sgiliau, profiad - mapio galluoedd ac asedau unigolion, cymdeithasau a sefydliadau lleol.
- Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad lleol a'u defnyddio i ddylanwadu ar newid, cynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau ac mewn llywodraethu lleol, adeiladu gweledigaeth gymunedol a diffinio blaenoriaethau lleol.
- Grymuso'r gweithluoedd mewn sefydliadau allweddol, newid y perthnasoedd rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau i rannu ac ailddyrrannu adnoddau.
- Canolbwyntio ar hwyluso, galluogi a grymuso yn hytrach na chyflwyno gwasanaethau yn y ffordd arferol.

Mae amcanion y cynllun peilot hwn yn rhan o uchelgais mwy i leihau'r risg o ganlyniadau gwael i unigolion a theuluoedd. Mae'r cynllun peilot yn cynnig y potensial ar gyfer targedu cefnogaeth i deuluoedd sy'n meithrin eu gwydnwch, ac yn cynyddu eu cyfleoedd bywyd a'u hannibyniaeth cyn i broblemau waethygu. Yn y tymor hwy, mae'r ymagwedd hon yn cynnig cyfle i leihau nifer y teuluoedd y mae angen ymyriadau mwy arbenigol arnynt, sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ymateb i ddiamddiffynedd mewn modd amserol a phriodol. Y nod terfynol fyddai rhoi mynediad cyfartal i genedlaethau'r dyfodol i gyfleoedd bywyd.

Camau yn unig yw'r camau gweithredu a ddisgrifir yma tuag at gyflawni'r buddion hyn, a fydd yn creu llwyfan amlasiantaeth i wella tystiolaeth i gefnogi ymyrryd ac atal yn gynnar ar gyfer pobl ddiamddiffyn yn ein cymunedau.

## Beth rydym am ei wneud?

	<b>Camau gweithredu</b>
1	Coladu a dadansoddi data meintiol gan nifer o asiantaethau partner i greu darlun o fywyd yng ngorllewin Sandfields
2	Defnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) fel fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol rhwngartneriaid perthnasol
3	Drwy'r tîm Plismona yn y Gymdogaeth, cydlynwyr ardaloedd lleol a phartneriaid eraill, byddwn yn cryfhau perthnasoedd presennol â'r gymuned.
4	Cynnal archwiliad gweledol o'r ardal
5	Coladu a rhannu manylion cyswllt yr holl randdeiliaid/bartneriaid cymunedol â'r holl bartneriaid
6	Mapio asedau yn y gymuned (y gallu, y sgiliau, yr wybodaeth a'r cysylltiadau cadarnhaol) a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y defnydd o'r asedau hyn
7	Cynnal arolwg o'r holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion yng ngorllewin Sandfields (Ysgol Bae Baglan, YGG Rhosafan ac Ysgol Gynradd St. Therese)
8	Gan ddefnyddio prif faterion o amrywiaeth o bartneriaid, byddwn yn nodi 20 o deuluoedd diamddiffyn i dreialu ffyrdd newydd o weithio amlasiantaeth
9	Datblygu a phrofi model hyfforddiant a chefnogaeth i bartneriaid allweddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o wahanol fathau o ddiamddiffynedd. Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r offer iddynt i nodi'r materion diamddiffynedd hyn ac ymateb iddynt yn briodol ac mewn modd amserol.
10.	Wrth adeiladu ar yr hyn a ddysgwn o waith yn ardal gorllewin Sandfields, byddwn yn nodi cyfleoedd ar draws Castell-nedd Port Talbot a'u cynyddu.



## **Blaenoriaeth ddrafft: Annog Heneiddio'n Dda**

**Cyfraniad at nodau lles:** Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

### **Pam mae hyn yn bwysig?**

Fel a nodwyd yn yr Aseiad o Les lleol, mae pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) yn byw yn hwy, a'r disgwyliad oes cyfartalog i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol bellach yw 77.0 mlynedd i ddynion ac 81.2 flynedd i fenywod. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn isel o'u cymharu â 78.3 ac 82.3 i ddynion a menywod yn ôl eu trefn ar draws Cymru ac mae amrywiad sylweddol hefyd o ran disgwyliad oes ar draws ardal y fwrdeistref sirol.

Y gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng dynion sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig CNPT yw 6.2 flynedd ac mae'r bwch o ran disgwyliad oes iach hyd yn oed yn fwy, sef 16.9 mlynedd; fodd bynnag, yn wahanol i Gymru'n gyffredinol, mae'r bylchau hyn wedi lleihau'n amlwg ers cyfnod 2005-2009. Y gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng menywod sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig CNPT yw 7.4 blynedd, gyda bwch o ran disgwyliad oes iach o 18.4 blynedd. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod y bwch rhwng menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae mwy o siawns y bydd gan boblogaeth sy'n heneiddio broblemau iechyd, gan gynnwys dementia (y disgwylir iddo gynyddu 31% rhwng 2011 a 2021) ac ansymudoledd (rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 50%). Erys tlodi ymhlith pobl hŷn yn fater a all arwain at farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r oerfel. I'r gwrthwyneb, dylai'r cynnydd yn y boblogaeth hŷn hefyd gael ei ystyried mewn ffordd fwy cadarnhaol gan y byddai mwy o bobl hŷn ar gael i weithio, gofalu neu wirfoddoli yn ein cymunedau.

Ers lansio'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn 2013, cafwyd ymdrechion gan bob sector i wella lles y rhai dros 50 oed yn CNPT. I wella lles y preswylwyr hyn, mae'r BGC wedi cyflwyno ei ffrwd waith 'Heneiddio'n Dda' yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Pa gamau rydym yn mynd i'w cymryd?

Yng nghyfarfod y BGC ar 2 Awst, nodwyd y themâu allweddol canlynol:

1. Datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed ac sy'n cefnogi pobl â dementia
2. Lleihau achosion o gwmpo
3. Lleihau cyffredinrwydd unigrwydd ac unigedd cymdeithasol digroeso
4. Darparu cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli cadarnhaol
5. Lleihau tlodi gan gynnwys tlodi tanwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r oerfel
6. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau sy'n targedu pobl hŷn, a chynyddu'r gyfradd adrodd amdanynt

Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, gwirfoddolodd swyddog arweiniol i fod yn gyfrifol am nodi partneriaid allweddol, cydlynu'r gwaith i fapio materion ac asedau yn y gymuned a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn. Mae'r gwaith ymchwiliol hwn yn angenrheidiol i benderfynu ar y camau y bydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod pobl yn heneiddio'n dda yng Nghastell-nedd Port Talbot.

<b>Camau gweithredu</b>	
1	Gwerthuso'r prosiect peilot cefnogi pobl â dementia lleol ac ystyried y meini prawf ar gyfer achrediad ystyriol o ddementia a chyfeillgar i oed
2	Y Bwrdd Iechyd i ystyried gwaith presennol i atal cwmpadau, sut gellir datblygu hyn a sut gellir cryfhau partneriaethau
3	Ystyried a mapio mentrau presennol sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella effeithiolrwydd
4	Drwy weithio gyda Phartneriaeth Ddysgu Castell-nedd Port Talbot a'r CGG, byddwn yn mapio darpariaeth ac asedau cymunedol presennol ac yn asesu angen.
5	Asesu pa gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fwyafu incwm. Mapio angen i nodi ble mae'r angen hwnnw gyda chefnogaeth Grwpiau Diwygio Lles
6	Cydgysylltu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i asesu lefelau troseddau yr adroddir amdanynt ar hyn o bryd ymhlith pobl hŷn, a sut gellir gwella diogelwch yn y dyfodol



## **Blaenoriaeth ddrafft: Hybu lles drwy'r gweithle ac ynddo**

**Cyfraniad at nodau lles:** Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

### **Pam mae hyn yn bwysig?**

Mae gwaith yn bwysig i iechyd: mae iechyd meddwl a chorfforol pobl sy'n gweithio'n tueddu i fod yn well na'r rhai nad ydynt yn gweithio. Ar yr un pryd, gall gwaith ac amgylchedd y gweithle gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd gweithwyr. Bydd cadw pobl yn iach yn ystod eu bywydau gwaith yn lleihau'n sylweddol faich afiechyd yn ein poblogaeth yn nes ymlaen mewn bywyd - gan gyfrannu hefyd at gyflawni'n hamcan heneiddio'n dda. Mae partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn cyflogi nifer sylweddol o bobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym yn deall bod ymddygiadau iechyd yn y gweithle'n cael effaith ar yr unigolyn, ei deulu a'r gymuned ehangach. Byddwn yn cefnogi'n staff i fabwysiadu ymddygiadau iach drwy greu gweithleoedd iach.

Bydd oedran cynyddol y boblogaeth yn cael ei adlewyrchu yn iechyd ac anabledau staff gwasanaethau cyhoeddus y bydd yn rhaid i ni, fel cyflogwyr, fynd i'r afael â hwy.

Bydd annog a chefnogi staff i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw fel unigolion yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd yr unigolyn ac yn dylanwadu ar eraill yn eu rhwydwaith cymdeithasol ehangach. Bydd creu amgylcheddau gweithle (cymdeithasol a ffisegol) sy'n galluogi ymddygiad iach yn hanfodol er mwyn galluogi hyn.

Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol blaenorol wedi annog partneriaid yn y sector cyhoeddus i groesawu'r Safon Iechyd Corfforaethol yr oedd nifer o bartneriaid wedi'i bodloni ar lefelau gwahanol.

## Pa gamau y byddwn yn eu cymryd?

1. Byddwn yn cynnwys pobl leol, gweithwyr a phreswylwyr, er mwyn iddynt ddod i ddeall y materion allweddol sy'n gysylltiedig â gwaith a'r gweithle sy'n bwysig yn eu tyb hwy ar gyfer diogelu a gwella'u hiechyd.
2. Byddwn yn cynnal digwyddiad dysgu a rhannu gyda thrawstoriad o gyflogwyr a gweithwyr y sector cyhoeddus i:
  - Adolygu polisïau a rhaglenni presennol i nodi arfer da a chael mewnwelediad i brofiadau gweithwyr
  - Nodi unrhyw gyfleoedd i gydweithio
  - Dysgu gan arfer da ac arloesedd mewn meysydd eraill
  - Archwilio sut gall cynllunio'r gweithlu liniaru'r heriau a gyflwynir gan weithlu sy'n heneiddio a nodi ymagweddau gwahanol at reoli'r newid o waith i ymddeoliad.
3. Byddwn yn cyd-gynhyrchu'n hymagwedd at wella iechyd y gweithle gyda chyflogwyr a phartneriaid - gan fynd y tu hwnt i'r gwobrau i ddatblygu gweithleoedd sy'n hybu iechyd, perthnasoedd effeithiol sy'n cefnogi ei gilydd - yn y gwaith a'r tu allan iddo a rhwng unigolion a sefydliadau - ac yn ystyried sut byddwn yn cefnogi'r rhai â chyflyrau tymor hir i ddychwelyd i'r gwaith.



## 7. Cyflwyno a Monitro Cynnydd

**Monitro ein cynnydd** - Caiff cyflwyno'r cynllun hwn ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chefnogaeth datblygiad fframwaith rheoli perfformiad addas at y diben a fydd yn dangos yn glir atebolrwydd ar gyfer cyflwyno'r cynllun a'r effaith ar les yr ardal.

**Adroddiad Blynyddol** - Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, caiff adroddiad blynyddol ei lunio a'i gyhoeddi o fewn 14 mis ar ôl cyhoeddi'r cynllun hwn i alluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adrodd am weithgarwch blwyddyn gyfan i wella lles yr ardal.

**Craffu** - Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pholisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n gyfrifol am adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y Pwyllgor Craffu sydd hefyd yn gyfrifol am adolygu trefniadau llywodraethu'r bwrdd neu graffu arnynt; llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu; ystyried materion sy'n ymwneud â'r bwrdd oherwydd gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atynt ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hyn; a chyflawni swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â'r bwrdd a osodir arno gan y Ddeddf.